**Cyd-gyfarfod y Cynghorau**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y rhith-gyfarfod a gynhaliwyd am 9.30am ddydd Iau 30 Mawrth 2023 drwy Zoom

Yn bresennol:
Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Justin Albert
Emlyn Dole
Yr Athro Kyle Erickson
Taya Gibbons
Yr Athro Medwin Hughes
Rowland Jones
Timothy Llewelyn
Arwel Ellis Owen
Victoria Provis
Dr Conny Matera Rogers
Dr Stuart Robb
Geraint Roberts
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry
Emlyn Schiavone
Dr Peter Spring
Maria Stedman
Dr Kerry Tudor
Deris Williams

Yn bresennol hefyd:
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Yr Athro Elena Rodriguez-Falcon, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Iestyn Davies, Pro Is-Ganghellor (ar gyfer eitem 23.18)
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Lynwen Davies (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

Mynegodd y Cadeirydd a'r Is-Ganghellor werthfawrogiad y Cyngor a'r Brifysgol i Gill Jones am ei chyfraniad sylweddol i'r Cyngor a'i aelodau. Dymunwyd yn dda iddi ar ei hymddeoliad. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at Vanessa Liverpool a oedd ar gyfnod mamolaeth a dywedodd fod ei chyfnod yn Llywydd y Myfyrwyr wedi dod i ben. Diolchodd iddi am ei chyfraniad i'r Cyngor a'i llongyfarch ar yr hyn yr oedd wedi'i gyflawni fel Llywydd y Myfyrwyr. Dymunodd yn dda iddi i'r dyfodol.

| Rhif yr Eitem | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 23.13 Ymddiheuriadau am absenoldeb a chroeso | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Siwan Davies, Uzo Iwobi, Vanessa Liverpool a Dr Andrew Cornish.<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Emlyn Dole i'w gyfarfod cyntaf yn Ddarpar Gadeirydd a'r Athro Kyle Erickson fel yr aelod staff anacademaidd a etholwyd yn aelod o'r Cyngor. | |
| 23.14 Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau'r Datganiadau o Fuddiannau diweddaraf fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (JCO189). | |
| 23.15 Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad y Cadeirydd (JCO190). Cyfeiriodd y Cadeirydd at y canlynol:<br><br><u>Ymweliad Sefydliadol CCAUC</u><br>Roedd CCAUC wedi bod mewn cysylltiad i drefnu cyfarfodydd Adolygiad Sicrwydd Sefydliadol PCYDDS ar gyfer Mai 2023. Byddai'r cyfarfodydd yn cynnwys trafodaethau unigol gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio a Risg,  Adnoddau a Pherfformiad, a Thaliadau.<br><br><u>Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (ChUW)</u><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at y materion a drafodwyd yng nghyfarfod diweddar Cadeiryddion Prifysgolion Cymru a oedd yn cynnwys heriau cynaliadwyedd ariannol a gweithredu argymhellion Camm. Yn ogystal derbyniodd y Cadeiryddion ddiweddariad polisi gan Brifysgolion Cymru a chyflwyniad gan Brif Swyddog Gweithredol interim CTER. Roedd disgwyl i gyfarfod gyda'r Gweinidog gael ei gynnal ym mis Gorffennaf.<br><br>Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Darpar Gadeirydd yn mynychu cyfarfodydd ChUW o hyn ymlaen. | |
| 23.16 Adroddiad yr Is-Ganghellor | Mae'r eitem hon DAN GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 23.17 Adroddiad Undeb y Myfyrwyr | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad diweddaru Undeb y Myfyrwyr (JCO192), a oedd yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â phrofiad myfyrwyr a gweithgareddau strategol cyfredol Undeb y Myfyrwyr.<br><br>Rhoddodd Llywydd y Myfyrwyr adroddiad ar etholiadau diweddar Undeb y Myfyrwyr ac ar y grwpiau ffocws a sefydlwyd ar bob campws i ddarparu adolygiad democrataidd ar strwythur Undeb y Myfyrwyr. | |

| Rhif yr Eitem | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Cyfeiriodd aelodau at yr etholiad myfyrwyr diweddar a holi sut y byddai myfyrwyr campysau Llundain a Birmingham yn cael eu cynrychioli y flwyddyn nesaf gan nad oed Llywydd wedi'i ethol o'r campysau hynny y tro hwn (gan nodi fod y Llywydd Grwp oedd yn ymddeol yn fyfyriwr ar gampws Llundain). Cadarnhaodd Llywydd y Myfyrwyr fod rôl y Llywydd Grŵp yn cwmpasu pob campws gan gynnwys Llundain a Birmingham. Roedd yr adolygiad democrataidd cyfredol yn cynnwys ystyried y trefniadau cynrychi gorau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Cyfeiriodd aelodau at y sector AB o fewn y Grŵp ac annog cydweithio agosach â'r cyrff myfyrwyr hynny.<br><br>Gwnaeth Cadeirydd y Cyngor longyfarch Taya Gibbon ar gael ei hethol yn Llywydd Grŵp ar gyfer 2023/24 a gofynnodd iddi estyn ei longyfarchiadau i'r Llywyddion campws. | |
| 23.18 Strwythur Cydffederal – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Mae'r eitem hon DAN GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 23.19 Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2021/22 | YSTYRIODD y Cynghorau Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2021/22 (JCO193).<br><br>Atgoffodd Cyfarwyddwr Gweithredol AD y Cynghorau ei bod yn ofyniad cyfreithiol i'r Brifysgol gyhoeddi'r adroddiad yn flynyddol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys data nodweddion gwarchodedig allweddol ar gyfer staff a myfyrwyr ac yn darparu diweddariad cryno lefel uchel o'r camau blaenoriaeth a gymerwyd o ran Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gweithredol AD at y data myfyrwyr, gan nodi bod rhai agweddau'n anghyflawn tan y cyhoeddir data gan HESA. Cyfeiriodd yr aelodau at y prif fewnwelediadau o ran proffil y gweithlu. Roedd 54% o'r staff yn staff academaidd. Roedd y proffil rhywedd yn unol â'r sector a bu cynnydd o 10% o ran gweithwyr Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol. Bu cynnydd yn nifer y staff oedd yn datgelu gwybodaeth, a oedd i'w gymeradwyo. Cyfeiriodd at broffil oedran staff a nododd ostyngiad yn y rhai 35 oed ac iau, a oedd yn cael ei adolygu yng nghyswllt gweithgarwch recriwtio.<br><br>Ymatebodd y Clerc i gwestiynau'r aelodau ynghylch proffil y Cyngor a nododd fod data'n cael eu casglu am aelodau'r Cyngor drwy'r adroddiad HESA blynyddol a'r wybodaeth yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu i lywio'r broses o gynllunio amrywiaeth a recriwtio. Atgoffodd yr aelodau fod gweithgor o'r | |

| Rhif yr Eitem | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu wedi'i sefydlu i ddatblygu cynllun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer y Cynghorau.<br><br>Yn dilyn trafodaeth ar agweddau ar yr adroddiad, CYMERADWYODD y Cynghorau ei gyhoeddi. | |
| 23.20<br>Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau | YSTYRIODD y Cynghorau yr Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau: 31 Mawrth 2023 (JCO195), yr oedd yn ofynnol i holl brifysgolion Cymru ei gyhoeddi.<br><br>Nododd yr aelodau fod yr adroddiad yn dangos y gwahaniaeth cyfartalog rhwng enillion menywod a dynion yn PCYDDS ar 31 Mawrth 2022. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r camau a gwblhawyd a chamau pellach a fwriedir i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau gyhoeddi'r adroddiad. | |
| 23.21<br>Rheoli Risg | YSTYRIODD y Cynghorau y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a oedd wedi'i hystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Archwilio a Risg (JCO196).<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau argymhellion y Pwyllgor Archwilio a Risg o ran diwygiadau. | |
| 23.22<br>Cofnodion | CYMERADWYODD y Cynghorau Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023 (JCO197). | |
| 23.23<br>Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | YSTYRIODD y Cynghorau adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 (JCO198) a CHYMERADWYO<br><br>a. Penodiad Emlyn Dole yn aelod o'r Pwyllgor Ystadau a'r Pwyllgor Taliadau am weddill y flwyddyn academaidd gyfredol.<br><br>b. Gohirio'r Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu tan 2023/24. | |
| 23.24<br>Dyletswydd PREVENT | DERBYNIODD y Cynghorau ganlyniadau monitro datganiad blynyddol Dyletswydd Prevent (JCO199). | |
| 23.25<br>Diweddariad i'r cynllun cydraddoldeb, | DERBYNIODD y Cynghorau ddiweddariad ar ddatblygu cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Cynghorau (JCO200). | |

| Rhif yr Eitem | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| amrywiaeth a chynhwysiant | | |
| 23.26 Datganiadau o fuddiannau | Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 23.27 Dyddiad y cyfarfod nesaf | Byddai’r cyfarfod nesaf oedd wedi’i drefnu’n cael ei gynnal ar 6 Gorffennaf 2023. | |

Terfynwyd y cyfarfod am 10.55